Rebecca Evans AC/AM
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

19 Gorffennaf 2019

Annwyl Elin,

**GORCHYMYN IECHYD PLANHIGION (COEDWIGAETH) (DIWYGIO RHIF 2) (CYMRU) 2019**

Yn unol â'r canllawiau, rwy'n eich hysbysu y bydd adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 paragraff 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n cyflwyno'r rheol y bydd offerynnau statudol yn dod i rym o leiaf 21 diwrnod o ddyddiad eu gosod, yn cael ei thorri er mwyn gallu cyflwyno'r Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygio) 2005 uchod. Amgaeir y Memorandwm Esboniadol i chi er eich gwybodaeth.

Bydd yr Offerynnau Statudol yn caniatáu mwy o reolaeth ar goed deri allai fod o risg uchel sy'n cael eu mewnforio o wledydd lle mae gwasgariad Gwyfyn Ymdeithiwr y Derw yn eang. Er mwyn sicrhau bod y cynigion yn gallu cael eu gorfodi gyda gweddill y DU, bu'n rhaid torri'r rheol 21 niwrnod. Ar hyn o bryd, caniateir mewnforio coed deri o ranbarthau lle ceir y pla hwn yn unol â rhai mesurau goruchwylio a rheoliadau. Fodd bynnag, mae ymchwiliadau yn yr amgylchedd ehangach yng Nghymru a Lloegr wedi dangos nad yw'r rheoliadau hyn yn ddigon gan fod nifer o'r gwyfynod wedi'u darganfod y tu allan i Lundain ledled Cymru a Lloegr.

Cyflwynodd yr Alban eu Hofferyn Statudol cyfatebol ar 15 Gorffennaf gan ddod i rym ar 16 Gorffennaf. Cyflwynodd Lloegr eu Hofferyn Statudol ar 15 Gorffennaf a daeth hwnnw i rym yr un diwrnod.

Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol nac Ymgynghoriad wedi'u cynnal gan fod cymaint o frys i roi'r Offeryn Statudol ar waith. Fodd bynnag, mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi ac wedi'i osod gyda'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae copi o’r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac at Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Pwyllgorau a'r Siambr.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd